



Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan 25 Chwefror 2017

2017.01 Addoli agoriadol a chroeso

Yn ein haddoli agoriadol, darllenwyd darn yn y Gymraeg a'r Saesneg o *Tua'r Tarddiad a Towards the Source*.

Rydym wedi croesawu 35 o Gyfeillion yma heddiw yn ôl y daflen bresenoldeb.

Penodwyd y Cyfeillion canlynol gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

Gogledd Cymru: Catherine James, Rosemary Dixon-Nuttall, Judith Hedges,
David Mellor (yn adrodd)

Canolbarth Cymru: Helen Porter

Gororau'r De: Stevie Kraye

De Cymru: Nid oedd unrhyw Gyfaill wedi'i benodi ond bydd Carolyn Sansom yn adrodd.

Ein henadur heddiw yw Theresa Haine o Gwrdd Llanbedr Pont Steffan.

Ein cyfieithydd heddiw yw Steffan Wiliam.

2017.02 Bydd yr adroddiadau am y cyfarfod hwn i Calon a The Friend yn cael eu hysgrifennu gan Pauline Brind.

2017.03 Adroddiad Pwyllgor y Crynwyr ar gyfer Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd (QCCIR)

Rydym wedi derbyn adroddiad gan Gethin Evans ar waith y QCCIR, Pwyllgor y Crynwyr ar gyfer Cysylltiadau Cristnogol a Rhyng-ffydd. Mae newidiadau yn ffocws gwaith y Pwyllgor yn ddiweddar wedi arwain at finio ei ymdrechion. Mae prosiect gyda Woodbrooke dan y teitl 'Wyneb Newidiol Ffydd ym Mhrydain' yn anelu at adnabod pa effaith y mae hyn yn ei chael ar Gymdeithas y Cyfeillion a dylai fod o ddiddordeb i ni yng Nghymru.

Mae ymateb diweddar gan y pwyllgor i bapur gan Gyngor Eglwysi'r Byd dan y teitl 'A Spirit Led Church' yn ddogfen werthfawr i gael ei hastudio gan gyrddau lleol sydd â diddordeb mewn cynyddu ymwybyddiaeth o sylfaen ein disgyblaethau ysbrydol. Gellir cael copïau o'r ddogfen hon gan Friends House. Pynciau eraill i gael sylw fydd materion yn ymwneud â diwedd oes a diwinyddiaeth cynaliadwyedd. Rydym yn diolch i Gethin Evans am ei adroddiad.

2017.04 Gwaith yng Nghymru: Ysgolion Heddychlon a thu hwnt

Testun calondid i ni yw clywed sut mae Crynwyr yng Nghymru wedi bod yn hyrwyddo addysg heddwch mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae Helen Porter o Gyfarfod Ardal Canolbarth Cymru wedi siarad am y prosiect Ysgolion Heddychlon a gychwynnwyd ganddo i

roi sgiliau a thechnegau i blant mewn ysgolion cynradd i fod mewn heddwch â nhw eu hunain ac eraill. Yr ymateb i hwn fu adborth rhagorol a chynnydd mewn ceisiadau gan ysgolion am raglenni yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Helen yn gobeithio y gall y fenter hon gael ei hehangu ar draws y wlad.

Anfonodd Alan Armstrong, ein cynrychiolydd ar gyfer *Cymru'n Cofio* adroddiad ysgrifenedig am yr arddangosfa *Creu a Gweithredu* sydd bellach wedi'i lansio ac ar gael i'w defnyddio. Rydym yn annog Cyrddau i drefnu ei dangos yn eu bröydd eu hunain. I gynnal yr arddangosfa yn eich cymuned neu i ychwanegu at y storïau a gasglwyd gan y prosiect *Cymru Dros Heddwch*, cysylltwch â Ffion Fielding, Cydlynnydd Arddangosfeydd ac Ymgysylltu,

Cymru Dros Heddwch, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru,
Y Deml Heddwch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3AP.

Ffôn 029 2082 1051 E-bost ffionfielding@wcia.org.uk.

Gwefan Cymru Dros Heddwch yw <http://www.walesforpeace.org>.

Wedyn, bu Jane Harries yn ymhelaethu ar yr adroddiad hwn mewn cysylltiad â'r gwaith y mae'r prosiect *Cymru dros Heddwch* yn ei wneud, sy'n cynnwys gwaith gydag ysgolion. Wrth graidd y prosiect hwn mae'r cwestiwn sut mae Cymru wedi cyfrannu i heddwch dros y can mlynedd diwethaf a sut rydym yn meithrin cenhedlaeth newydd o dangnefeddwyr. Rydym yn diolch i bob un o'r tri Chyfaill am eu cyfraniad heddiw.

2017.05 Adroddiad Cytûn

Rydym wedi derbyn adroddiad gan Deborah Rowlands am gyfarfod diweddar bwrdd a grŵp galluogi Cytûn yn Amwythig y mis yma.

Rydym yn nodi ei bod yn debygol y cynhelir gwasanaeth eciwmenaid i ddathlu 500 mlwyddiant y Diwygiad yng Nghadeirlan Gatholig Dewi Sant yng Nghaerdydd ar 31 Hydref. Croesawn y datblygiad hanesyddol ac arwyddocaol hwn gan obeithio cael ein cynrychioli ar yr achlysur hwnnw. Diolchwn i Deborah Rowlands am ei hadroddiad.

2017.06 Materion Ymestyn Allan

(i) Jeff Beatty yw cydlynnydd presenoldeb y Cyfeillion yn *Sioe Frenhinol Cymru*, Llanelwedd, 24-27 Gorffennaf 2017.

(ii) Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017 yn Ynys Môn rhwng 4 a 12 Awst eleni a Gwyneth Hewitson fydd y cydlynnydd ar gyfer presenoldeb y Cyfeillion yno. Bydd Cyrddau'n derbyn ceisiadau am wirfoddolwyr yn y man.

(iii) Darlith yr Eisteddfod

Rydym wedi derbyn diweddariad ar y trefniadau ar gyfer yr ail mewn cyfres o ddarlithoedd ar themâu Crynwraidd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern ddydd Mercher 9 Awst 2017. Traddodir y ddarlith gan Huw Meredydd Owen o Gwrdd Lleol Pwllheli sy'n bensaer wrth ei alwedigaeth. Teitl y ddarlith fydd *Yr Eiliad a'r Twll yn y To*. Cyfeiriadau yw'r rhain at gerdd Waldo Williams *Yr Eiliad* a chynllun to newydd *'The Light'*, y Tŷ Cwrdd mawr yn Friends House. Bydd Huw yn edrych ar dystiolaeth y Crynwyr i Symlwrwydd a'r chwilio am brofiad ysbrydol uniongyrchol yng ngoleuni ei brofiad yntau o'r broses greadigol. Rydym yn edrych ymlaen at y digwyddiad hwn ac at destun darlith Huw yn cael ei ledaenu ar ôl hynny gan nodi cynlluniau i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad ymlaen llaw. Bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu.

Bydd Gethin Evans yn cyflwyno fersiwn Saesneg o'i ddarlith yn 2016 yng Nghynulliad y Cyfarfod Blynnyddol ym Mhrifysgol Warwick. Dyma gyfle i Gyfeillion o fannau eraill i ymgyswngwddo â Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

(iv) Gŵyl Lyfrau'r Gelli Gandryll

Mae'r clerc wedi clywed gan *Quaker Life* y bydd gofod arddangosfa i'r Crynwyr yng Ngŵyl y Gelli eleni (25 Mai tan 4 Mehefin) a hefyd ddigwyddiad yn cael ei lwyfannu a fydd yn cynnwys tri awdur sy'n Grynwyr, efallai ar 28 Mai. Rydym yn croesawu'r newyddion hyn. Fe'i trefnir gan *Quaker Life* a bydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru yn ei gefnogi ag adnoddau dwyieithog printiedig i ategu beth bydd *Quaker Life* yn ei ddarparu; wrth sicrhau ei fod yn hysbys ymysg Cyfeillion yng Nghymru ac wrth hel gwirfoddolwyr o Gymru i wasanaethu mewn 'sifftiau' ym mwth yr arddangosfa dros ddeng niwrnod yr ŵyl. Mae Cyfarfod Ardal Gororau'r De mewn lle da i gael gwirfoddolwyr o ochr Lloegr i'r ffin ac mae ei glerc, Jeff Beatty, hefyd mewn cysylltiad â Gill Sewell o *Quaker Life*. Gofynnwn i'r Pwyllgor Enwebiadau gael hyd i Gyfaill ar frys i fod yn gydlynnydd i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wrth hel gwirfoddolwyr o *Gymru*, eu manylion cyswllt a'r dyddiad(au) (a yb/yp/yh) pryd y gallent wirfoddoli (bydd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n cylchredeg Cyrddau â'r cais am y rhain) ac yna anfon rhestr o Gyfeillion o'r fath at Jeff Beatty.

Cofnod 2017.07 o Gyfarfod Ardal Gororau'r De

Mewn ymateb i'r Cofnod canlynol a dderbyniwyd gan Gyfarfod Ardal De'r Gororau, byddwn yn gofyn i CYTÛN ystyried ffyrdd o agor y drysau i gredoau eraill yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2018. Gofynnwn i'r clerc anfon cais ymlaen at Aled Edwards, Prif Swyddog Gweithredol CYTÛN sydd ei hun yn ymwneud yn agos â gweithgarwch rhyng-ffydd, gyda chopi at Ynyr Roberts a Deborah Rowlands, y Cyfaill ar ei fwrdd. Rydym yn ffyddiog y bydd cais o'r fath yn cael ei ddirnad mewn ffordd weddigar ac ystyriol.

Cofnod o Gyfarfod Ardal Gororau'r De

AM17/17 Presenoldeb Ffydd mewn Gwyliau

Mae ein clerc wedi derbyn cofnod 16/42 gan Gwrdd y Fenni ar bresenoldeb aml-ffydd ym Mhabell Cytûn yn yr Eisteddfod a chyfarfodydd tebyg ac mae ein Cyfaill Hilary Beynon wedi siarad amdano.

Mae Cyfeillion hefyd wedi sôn am eu profiadau yn yr Eisteddfod y llynedd gan ddisgrifio eu profiadau cadarnhaol a'r cyfleoedd ar gyfer allgymorth, ond hefyd am y diffyg cyfle i gynnwys credoau eraill ym Mhabell Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru).

Rydym yn gofyn i'n clerc anfon y cofnod hwn, gyda chariad ac mewn cyfeillgarwch, at Glerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru.

2017.08 Adroddiad am Adnoddau

Mae Ros Morley wedi darparu adroddiad sy'n rhoi gwybod y dylai cyfarfodydd sydd eisiau copïau o *Ein ffydd yn y dyfodol* gysylltu â'n swyddog gweinyddol ac mae Ros Morley wedi dweud wrth y clerc ei bod yn hyderus y bydd ail faner Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi'i gwneud erbyn adeg Gŵyl y Gelli.

2017.09 Adroddiad y clerc am Gyfarfod y Clercod

Cyfarfu clerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru â'r Clerc Cofnodi a chlercod y Cyfarfod Cyffredinol i'r Alban a'r Cyfarfod Dioddefiadau 30 Tachwedd 2016 yng Nghaerdydd. Rydym wedi clywed am y posibilrwydd o greu Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Cyfarfod Blynyddol Prydain, y Cyfarfod Cyffredinol i'r Alban a Chyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a fyddai'n cynnwys cyfeiriad at statws y Gymraeg o fewn Cyfarfod Blynyddol Prydain. Byddem yn croesawu cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyfarfod Dioddefiadau am waith Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gan ofyn i'n clerc ysgrifennu at y Clerc Cofnodi a Chlerc y Cyfarfod Dioddefiadau i fynegi hynny.

2017.10 Prosiect y Llyfrgelloedd

Adnoddau archifol pwysig i Gymdeithas Grefyddol y Crynwyr yw Llyfrgelloedd y Crynwyr yn Friends' House a Woodbrooke ac maent yn darparu gwybodaeth i'n helpu yng ngwaith y Crynwyr ac mewn dysgu. Rydym yn annog Cyfeillion i ymateb i'w cais am fewnbwn i'r Cydbrosiect Datblygu Llyfrgelloedd cyn y dyddiad cau y bydd am ein pennau'n fuan (ddiwedd mis Chwefror) ac i rannu'r wybodaeth hon â'u cyrddau. Nod y prosiect yw sicrhau bod deunydd ar gael i Gyfeillion drwy ddigideiddio o gasgliadau'r ddwy lyfrgell. Cwblhewch yr arolwg ar-lein ar: <https://www.surveymonkey.co.uk/r/JLDP1>

2017.11 Ymddiriedolwyr a Materion Ariannol

Mae Frank Brown, cynullydd yr Ymddiriedolwyr, wedi siarad am yr Adroddiad Blynyddol y mae'r Ymddiriedolwyr wedi'i dderbyn. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adrodd wrth y Comisiynwyr Elusennol yn ôl y gofyn. Yn y man, bydd modd gweld yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar y wefan.

Mae ein Trysorydd, Martin Hughes, wedi adrodd, yn amodol ar i'r archwiliwr allanol eu hardystio, fod y cyfrifon wedi'u cymeradwyo. Mae grant blynyddol Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi codi o £6,831 i £11,173 i dalu am gostau gweinyddol a chyfieithu uwch. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar gynnydd yn oriau'r swyddog gweinyddol i 12 awr yr wythnos o 1 Ionawr 2017. Rydym yn cofnodi ein diolch i'n Cyfaill D. Bryn Jones am ei wasanaeth cyfieithu hynod werthfawr i'r cyfarfod hwn yn ystod y blynyddoedd diweddar. Rydym hefyd yn cofnodi ein diolch i'r Cyfeillion hynny sy'n gallu cynnig gwasanaeth i'r Cyfarfod heb angen hawlio treuliau.

2017.12 Consŷrn y Crynwyr dros Ddiddymu Artaith (QCAT) Mae ein siaradwraig, Jane Laxton, wedi ein harwain mewn ymchwiliad ysgogol i'r pwnc yma ac rydym yn diolch iddi am ymuno â ni heddiw.

2017.13 Diweddariad ar y wefan

Rydym wedi clywed gan ein swyddog gweinyddol Jules Montgomery am waith grŵp y wefan. Mae'n cymeradwyo gwefan sy'n fwy llwyr ddwyieithog, croesawus a syml ac sy'n cymryd cyfrif o'r ysbrydol yn fwy. O fis Mawrth 2017 ymlaen, ac fel rhan o nifer o newidiadau arfaethedig, bydd lletya gwefan Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru wedi'i drosglwyddo. Rydym yn diolch i Matt Watson am ei waith a'i gymorth technegol i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru a'i swyddog gweinyddol dros nifer o flynyddoedd.

2017.14 Cofnodion rhwng Cyfarfodydd

(i) Mynychodd clerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru lansiad arddangosfa *Cred a Gweithred* ym Mhontypridd ar ei ran ddydd Sadwrn 5 Tachwedd. Mae hon yn ystyried 'themâu recriwtio a gwrthwynebu cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r credoau a arweiniodd rai i gwestiynu rhyfel a gweithio dros heddwch yn y ganrif ers hynny'. Roedd nifer o Gyfeillion eraill hefyd yn bresennol.

(ii) Ar 8 Rhagfyr ym Mhenarth, mynychodd clerc Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru y cynulliad Diolchgarwch am fywyd y Parch. Gethin Abraham Williams, cyn-Brif Swyddog Gweithredol CYTŪN.

(iii) Fel a benderfynwyd yng Nghofnod 2016.29 mae Catherine James, Christine Trevett a hefyd Lynn Moseley wedi ymweld â chyrrddau lleol i siarad am waith Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru. Ymwelwyd â phedwar cwrdd lleol ar ddeg.

(iv) Archwiliwr annibynnol cyfrifon Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru bellach yw R. Paul Bradshaw.

2017 15 Enwebiadau a Phenodiadau

(i) Rhwng cyfarfodydd:

- Derbyniwyd yr enwau canlynol gan Gyfarfodydd Ardal i gydlynu presenoldeb y Cyfeillion yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd, 2017 a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern, Ynys Môn yn 2017: gan CAGC Gwyneth Hewitson ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol a chan CAGD Jeff Beatty ar gyfer Sioe Frenhinol Cymru.
- Mewn cysylltiad â Chofnod 2016.39 (is-grŵp i greu tudalennau enghreifftiol ar gyfer cynllun gwefan) cytunodd y Cyfeillion canlynol i ymgymryd â'r dasg: Alma Whitten, Rhian Parry. *Rydym yn dal i chwilio am drydydd Cyfaill ar gyfer y grŵp hwn*. Aelod gohebol yw Jules Montgomery.
- Penodwyd Helen Lewis o Gwrdd Lleol Porthmadog fel yr aelod dros Ogledd Cymru yng Ngrŵp Ffocws Cymru Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, i wasanaethu o 01.01.2017 hyd at 31.12.2019.

(ii) Enwebiadau sydd wedi'u dwyn gerbron

- I fod yn glerc cynorthwyol i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru, yn gwasanaethu o 1 Mawrth 2017 hyd at 31.12.2018:
Catherine James (CLI Porthmadog).
- I fynychu Synod rhanbarthol yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig fel cynrychiolydd eciwmenaidd y Cyfeillion, 25 Mawrth yn Llandrillo yn Rhos: Efa Wulle (CLI Bae Colwyn).
- I fynychu Synod rhanbarthol yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig fel cynrychiolydd eciwmenaidd y Cyfeillion, 11 Mawrth yn Heol y Waun, Pen-rhys: Christine Trevett (CLI Pen-y-bont ar Ogwr).
A'r enwau hyn yn dderbyniol penodwyd y tri Chyfaill hyn.

(iii) Enwebiadau a geisir

Cyd-glerc i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2019

Aelod i'r Pwyllgor Trefniadau (o ddewis o CAGD) i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2019

Aelod i Is-grŵp y Wefan ar gyfer cyfnod gorchwyl a gorffen byr.

Ymddiriedolwr ar gyfer Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru i wasanaethu'n syth a hyd at 31.12.2019

Cyfaill i weithredu fel cydlynnydd yn derbyn enwau gwirfoddolwyr ar gyfer presenoldeb y Crynwyr yng Ngŵyl y Gelli 2017.

Cyfaill (gyda gwybodaeth o'r Gymraeg) i fynychu te croeso cyfarfod blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i'w gynnal yn Rhydaman, ddydd Iau 15 Mehefin.

Christine Trevett (clerc)
christinetrevett01@gmail.com
Ffôn 01443 225732

Lynn Moseley (clerc cynorthwyol dros dro)